Peiriannau Chwilio'r Rhyngrwyd

Rydym i gyd yn gwybod beth yw'r Rhyngrwyd a sut i'w defnyddio, wel o leiaf rydym yn credu ein bod! Mwy na thebyg mae'r rhan fwyaf ohonoch yn cael cyfle i ddefnyddio'r Rhyngrwyd gartref neu yn y clwb T.G. amser cinio yn yr ysgol, ond ydych chi'n gwybod sut i ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn gywir?

Peiriannau Chwilio

Cwestiynau:

Yn gyntaf oll, gofynnwch i'ch hunan, beth yw peiriant chwilio? Ydych chi erioed wedi defnyddio un? Allwch chi enwi un?

Ateb:

Yn fras, mae peiriant chwilio'r Rhyngrwyd yn eich helpu i leoli a dod o hyd i wybodaeth ar y We Fyd-eang, nad ydym yn gwybod sut i'w darganfod neu sy'n amhosib i ni ei darganfod fel arall.

Ymhlith y peiriannau chwilio poblogaidd a all fod yn gyfarwydd i chi mae:

Google™ www.google.com

www.yahoo.com

www.ask.com (ask Jeeves)

Canllawiau'r Dasg

Ar ôl gweld **arddangosiad** gan eich athro/athrawes yn dangos i chi sut i ddefnyddio peiriannau chwilio'r Rhyngrwyd, mae cyfle nawr i chi ddangos i'ch athro/athrawes pa mor dda rydych yn gallu defnyddio'r Rhyngrwyd.

- Bydd angen i chi ddefnyddio'r Rhyngrwyd i ddod o hyd i'r atebion i'r cwestiynau isod (Defnyddiwch beiriant chwilio'r Rhyngrwyd o'ch dewis chi).

- **Ar ôl** dod o hyd i'r atebion, teipiwch nhw mewn **dogfen Word** sydd â'r teitl '**Tasg Chwilio'r Rhyngrwyd**'

- Yna dylech **anfon eich atebion fel atodiad** mewn **e-bost** at eich **athro/athrawes** a fydd yn marcio eich gwaith ac yn ymateb i'ch e-bost.

Cwestiynau:

1. Beth yw enw cefnfor mwyaf y byd?

2. Pwy oedd y person cyntaf i gerdded ar y lleuad?

3. Beth yw saith rhyfeddod y byd?

4. Pwy enillodd Bencampwriaeth Bêl-droed Cwpan y Byd 2006 yn yr Almaen?

5. Beth oedd dyddiad suddo'r Titanic?

6. Pwy yw arlywydd Ffrainc?

7. Pwy yw person cyfoethocaf y byd?

8. Beth yw'r car cyflymaf yn y byd?

9. Ble yn y byd mae'r Hâg?

10. Beth yw prifddinas Denmarc?